# Rhaglen Gwirfoddolwyr

## Ebrill 2019 i Medi 2019

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Croeso



**Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy - ac mae arnom angen eich help!**

O'r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd, ar hyd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i Hiraethog yn y gorllewin, gallwch ymuno a ni pob yn dipyn neu bob wythnos, eich dewis chi.

Bydd tasgau'n amrywio o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, adeiladu llwybrau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Nid oes angen profiad blaenorol - fe roddir hyfforddiant ac mae croeso i chi weithio'n ôl eich cyflymder eich hun.

denbighshirecountryside.org.uk
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
denbighshirevolunteers.co.uk



*Mae dyddiau Llun yn ddyddiau gwirfoddoli yng Ngardd yr Arglwydd*

Os ydych wrth eich bodd â gerddi ac os hoffech helpu yng ngerddi hanesyddol Nantclwyd y Dre, hoffem glywed gennych! Croeso i bob gallu.

**Cysylltwch â ni ar 01824 709822 neu anfonwch e-bost ar heritage@denbighshire.gov.uk**

**@Nantclwyd** **@YNantclwyd**

## I gael hwn mewn fersiynau Braille, print mawr neu dâp ffoniwch am ddim ar 0800 243980

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Parc Gwledig Loggerheads
01824 712 757

Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl)
01824 708 313

De Sir Ddinbych (Llangollen)
01824 712 795

**Chwiliwch amdanom ar y cyfryngau cymdeithasol**

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

@Clwyd_Dee_AONB
@DenbshireCside

**Cyngor Iechyd a Diogelwch**

Fe wnaiff y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddarparu'r holl ddillad diogelwch sy'n angenrheidiol. Cofiwch wisgo esgidiau cryfion efo gafael da arnyn nhw, cymeradwyir esgidiau mawr efo trwynau esgid dur ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Dewch â dillad rhag glaw efo chi a chinio pecyn. Mae'n rhaid i rai dan 14 oed fod gyda rhiant/gwarcheidwad. Yn anffodus ni allwn weithio efo plant sydd o dan 8 oed.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley

# EBRILL



• Twyni Gronant

**Dydd Llun 8   10am-3pm**
**Harbwr y Rhyl – Trawsblaniad Moresg**

Mae moresg yn hanfodol ar gyfer adeiladu a chynnal cynefin twyni tywod. Dewch i'n helpu i ailboblogi'r twyni gyda'r rhywogaethau planhigion pwysig hyn. Cyfarfod ym maes parcio Harbwr y Rhyl. LL18 5AX.

**Dydd Mercher 10  10am – 3pm.**
**Ffensio Glan yr Afon - Loggerheads**

Dewch i helpu i greu ffensys wedi'u gwehyddu ar ein llwybr poblogaidd. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



**Dydd Iau 11 - 10am**
**Glanhau ym Maes Llantysilio**

Dewch i helpu i gyflawni gwaith ar ddechrau Safle Treftadaeth y Byd Camlas Pontcysyllte a Llangollen i baratoi ar gyfer y cyfnod prysur. Cyfarfod ym maes parcio Maes Llantysilio.

**Dydd Mawrth 16 10am – 3pm**
**Ffensio Glan yr Afon - Loggerheads**

Dewch i helpu i greu ffensys wedi'u gwehyddu ar ein llwybr poblogaidd. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mawrth 16 10am-1pm**
**Gwanwyn Glân Cymru yn Aber Glan Morfa**

Ymunwch â ni ar gyfer glanhau safle yng Ngwarchodfa Natur Lleol Glan Morfa sy'n cyd-fynd â mis 'Gwanwyn Glân Cymru' Cadwch Gymru'n Daclus. Darperir yr holl offer. Cyfarfod ym maes parcio llwybrau Marsh, Marsh Road, y Rhyl. LL18 2AD.

**Dydd Llun 15 a dydd Mawrth 16**
**10am - 3pm Dechrau Ffensio**

Dewch i baratoi safle Gronant yn barod i'r môr-wennol fechan gyrraedd, ffocws y dasg yw sicrhau bod ffens allanol, arwyddion a rhoi rhaffau. Cyfarfod yn y Porth ar draws ffordd i Fynediad Presthaven.

**Dydd Mawrth 23 10am – 3pm**
**Gwelliannau Parc Gwledig Moel Famau - Glanhau**

Helpwch geidwad y Parc Gwledig i gadw'r parc yn edrych ar ei orau gyda gwelliannau mynediad a gwaith cynnal a chadw. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras.
(SJ 161 605)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 30 10am – 3pm**
**Ffensio Glan yr Afon**

Helpwch ni i dacluso ffensio ar lan yr afon a'r llwybr sydd yn mynd ar hyd llwybrau glan yr afon. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.



# MAI



## Dydd Mercher 8 10am – 3pm
## Hillside Prestatyn – Cynnal a chadw

Cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwelliannau a gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar ochr y bryn. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ 071 821)




- **Hillside Prestatyn**

**Dydd Mawrth 14 10am – 3pm**
**Cynnal a Chadw Llwybr - Loggerheads**

Helpwch ni i barhau i wneud i'r llwybrau edrych yn dda. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 15 10am – 3pm**
**Bwthyn y Bugail a Thir Caeedig Coed Nercwys**

Parhau â'r gwaith gwych a wnaed i wella'r trysor hanesyddol hwn yng nghanol y goedwig. Clirio o amgylch y bwthyn yn barod ar gyfer mortar calch ar y sylfeini a chlirio rhywogaethau prysgrwydd o'r gweirglodd blodau gwyllt. Cyfarfod ym mhrif faes parcio'r goedwig. (SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 21 10am – 1pm**
**Gerddi Hanesyddol Plas Newydd, Llangollen**

Helpu'r Garddwr i blannu planhigion blodau'r haf yn y gerddi. Cyfarfod tu allan i'r ystafelloedd te. LL20 8AW.

**Dydd Mawrth 21 10am – 3pm.**
**Gwelliannau Llwybr Loggerheads**

Dewch i helpu i wella un o'n llwybrau poblogaidd yn y Parc Gwledig Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mawrth 28 10am – 3pm**
**Gwelliannau i Lwybr Moel Famau**

Helpwch geidwad y Parc Gwledig i gadw'r parc yn edrych ar ei orau gyda gwelliannau mynediad a gwaith cynnal a chadw. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras. (SJ 161 605)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 29 10am – 3pm**
**Cynnal a chadw Pont - Moel Findeg**

Helpu i wella pont Gwarchodfeydd Natur Moel Findeg Cyfarfod rhwng pentref Maeshafn a'r Hen Hostel Ieuenctid. (SJ 205 608)



# MEHEFIN



**Dydd Mawrth 4 a Dydd Mercher 5**
**10am – 3pm**
**Codi waliau cerrig**

Dysgwch y dechneg draddodiadol o adeiladu wal gerrig. Helpu i barhau i ailadeiladu hen ffin y goedwig yng Nghoed Nercwys. Cyfarfod ym mhrif faes parcio'r goedwig. (SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 11 10am – 3pm**
**Gwelliannau llwybr**

Dewch i helpu i wella un o'n llwybrau poblogaidd yn y Parc Gwledig Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 12 10am – 3pm**
**Hillside Prestatyn – Cynnal a chadw**

Cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwelliannau a gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar ochr y bryn. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ 071 821)



**Dydd Iau 13 a dydd Gwener 14**
**10am Mount Woods – Walio Cerrig Sych**

Dysgwch am y sgil traddodiadol hwn gan hyfforddwr profiadol, gan ein helpu drwsio'r wal gerrig sych yn Mount Wood. Cyfarfod ym Mryn Stanley, oddi ar fynedfa Lôn Llewellyn i Mount Wood, Dinbych. (SJ 047 658).

**Dydd Mawrth 18 a dydd Mercher 19 10am - 3pm**
**Walio Cerrig Sych - Bwlch Yr Oernant, Llangollen**

Dewch i helpu i drwsio darn o wal ffin cerrig sych sydd wedi disgyn, ger bwlch yr Oernant gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod yn y gilfan ar dop bwlch yr Oernant, draws y ffordd i gaffi Ponderosa. (SJ 192 480).

**Dydd Mercher 19 10am – 3pm**
**Gwelliannau Parc Gwledig Moel Famau**

Helpwch geidwad y Parc Gwledig i gadw'r parc yn edrych ar ei orau gyda gwelliannau mynediad a gwaith cynnal a chadw. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras.
(SJ 161 605).

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 25 10am – 3pm**
**Cerdded a Gweithio**

Helpu i arolygu a thorri llwybrau cerdded yn ôl yn yr ardal. Byddwn yn cerdded amrywiol lwybrau felly bydd angen i chi fod yn hapus i gerdded a chario eich bag am y rhan fwyaf o'r dydd. Cyfarfod a gorffen ym maes parcio Loggerheads, ond efallai y byddwn yn teithio i safleoedd eraill gerllaw. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

# GORFFENNAF



**Dydd Mawrth 2  10am – 3pm**
**Gwelliannau i'r Ardd Goed**

Helpu i barhau i wella'r ardd goedd, clirio bôn y coed ifanc a chlirio'r llwybrau troed. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau.
(SJ 171 610)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Iau 4  10am**
**Torri Ffromlys Chwarennog!**

Mae angen help i dorri Ffromlys Chwarennog o lannau afon Dyfrdwy. Cyfarfod ym mhrif faes parcio Corwen. LL21 0DN.

**Dydd Mawrth 9  10am – 3pm**
**Torri Ffromlys Chwarennog!**

Mae angen help i dorri clwstwr dwys o Ffromlys Chwarennog o lannau afon Alyn. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mercher 10 Gorffennaf**
**10am-3pm**
**Hillside Prestatyn –**
**Cynnal a chadw**

Cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwelliannau a gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar ochr y bryn. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ 071 821)



**Dydd Llun 15, Dydd Mawrth 16 a Dydd Iau 18  10am.**
**Corwen – Rheilffordd Cynwyd – Gwneud Golosg**

Rhowch gynnig ar wneud golosg traddodiadol, golosg am ddim i bawb sy'n cymryd rhan! Dydd Mawrth - llenwi'r odyn, dydd Mercher - cynnau'r odyn, dydd Gwener - bagio'r cynnyrch. Cyfarfod yng nghilfan Stamp.
(SJ 064 422)

**Dydd Mercher 17   10am – 3pm**
**Coed Nercwys - Bwthyn y Bugail a Thir Caeedig**

Parhau â'r gwaith gwych a wnaed i wella'r trysor hanesyddol hwn yng nghanol y goedwig. Clirio o amgylch y bwthyn yn barod ar gyfer morter calch ar y sylfeini a chlirio rhywogaethau prysgrwydd o'r gweirglodd blodau gwyllt. Cyfarfod ym mhrif faes parcio'r goedwig. (SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# AWST



**Dydd Iau 1  10am**
**Sgarp Eglwyseg**

Mae angen help i adeiladu rhannau o Lwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi ar hyd Greigiau ysblennydd Eglwyseg.  Gan fod nifer y lleoedd parcio yn gyfyngedig, angen cyfarfod ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen am 10am a byddwn yn teithio i'r safle o fan hyn.

**Dydd Mawrth 6ed a dydd Mercher 7**
**Gweithdy morter calch, Coed Nercwys**

Dysgu sgil newydd gan ddiogelu darn o hanes  Gweithdy carreg calch morter 2 ddiwrnod yn Bwrthyn yr Hen Fugail, Coed Nercwys  Mae'n hanfodol archebu lle gan ei fod yn ddibynnol ar y tywydd.  Ffoniwch Thomas Jones, Parc Gwledig Loggerheads i archebu lle ar 01824 71 2757

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mawrth 13   10am – 3pm**
**Gwneud Mainc**

Helpu i adeiladu meinciau pren newydd ar gyfer y Parc gan ddefnyddio llarwydden leol. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.

**Dydd Mawrth 20  10am – 3pm**
**Gwelliannau Parc Gwledig Moel Famau**

Helpwch geidwad y Parc Gwledig i gadw'r parc yn edrych ar ei orau gyda gwelliannau mynediad a gwaith cynnal a chadw. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras.
(SJ 161 605)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Dydd Mercher 21  10am – 3pm**
**Hillside Prestatyn – Cynnal a chadw**

Cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwelliannau a gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar ochr y bryn. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ 071 821)



# MEDI



**Dydd Llun 2, Dydd Mawrth 3 a Dydd Iau 5 10am – 3pm**
**Gwneud Golosg**

Rhowch gynnig ar wneud golosg traddodiadol, golosg am ddim i bawb sy'n cymryd rhan. Dydd Llun - llenwi'r odyn, dydd Mawrth - cynnau'r odyn, dydd Iau – bagio'r cynnyrch. Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.

**Dydd Mercher 11  10am – 3pm**
**Hillside Prestatyn – Cynnal a chadw**

Cynnal a chadw cyffredinol ar y safle, gwelliannau a gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar ochr y bryn. Cyfarfod yn y maes parcio islaw Gerddi Hillside. (SJ 071 821)

**Dydd Iau 12 10am**
**Gwaith ar Lwybr Rhostir**

Dewch i ymuno â ni ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar lwybr y Clawdd Offa lle mae'n croesi cynnal a chadw Gors Cyrn y Brian tuag at Landegla. Cyfarfod yng nghilfan lle mae'r Llwybr Cenedlaethol yn gadael y ffordd (SJ 234 495), neu mae modd rhannu lifft o Faes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen am 9.30am.

**Dydd Llun 16 10am-3pm**
**Pwll Brickfields – Clirio Golygfan**

Helpwch ni i agor yr olygfan dros y pwll, a thorri prysgwydd rhag tyfu dros y llwybrau cerdded.
Cyfarfod yn swyddfa Brickfield, y Rhyl. LL18 2YR.

**Dydd Mawrth 17 10am – 3pm**
**Clirio'r Gors**

Help is needed to clear Gorse growing off a local scheduled ancient monument. We will provide lifts from Loggerheads Country Park.

**Dydd Mawrth 17 a dydd Mercher 18, 10am - 3pm**
**Walio Cerrig Sych - Coed Nercwys**

Helpu i barhau i ailadeiladu hen ffin y goedwig yng Nghoed Nercwys. Cyfarfod ym mhrif faes parcio'r goedwig, (SJ 218 593)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



**Dydd Iau 19 10am**
**Gro Isa, Corwen**

Helpwch ni i drwsio'r ffensio llechen hanesyddol a dechrau adnewyddu'r cloddiau. Cyfarfod ym mhrif faes parcio Corwen. LL21 0DN.

**Dydd Mawrth 24 10am – 3pm.**
**Gwelliannau i Barc Gwledig Moel Famau.**

Helpwch geidwad y Parc Gwledig i gadw'r parc yn edrych ar ei orau gyda gwelliannau mynediad a gwaith cynnal a chadw. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras. (SJ 161 605)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales


**Dydd Mercher 25 10am – 3pm**
**Coed Llangwyfan - Clirio**

Helpwch ni i sicrhau bod y safle yn edrych yn dda, mwynhewch y golygfeydd tra'ch bod yn edrych o amgylch y goedwig. Cyfarfod yng Nghoed Llangwyfan, yn nhop y maes parcio, ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch. (SJ 139 668)

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Natur er budd Iechyd

## Rhoi hwb i'ch iechyd a lles gyda natur



Ydych chi'n dymuno bod yn weithgar a dysgu sgiliau newydd yn 2019?

Pwrpas y prosiect Natur er budd Iechyd yw mynd allan i fwynhau byd natur er lles iechyd eich corf a'ch meddwl. Dewch draw i un o'n gweithgareddau wythnosol boed yn daith gerdded, cadwraeth ymarferol neu weithdy celf a chrefft; mae cymaint o bethau i gymryd rhan ynddyn nhw!

Gallwch ddod o hyd i'n sesiynau cerdded a chefn gwlad wythnosol am ddim yn y lleoedd canlynol:

| **Lleoliad** | **Dyddiad** | **Amser** |
|---|---|---|
| Y Rhyl | Dydd Mawrth | 10:00 |
| Llangollen | Dydd Mawrth | 10:00 |
| | Dydd Mercher | 10:00 |
| Corwen | Dydd Mercher | 13:00 |
| | Dydd Iau | 10:00 |
| Prestatyn | Dydd Iau | 10:00 |




Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tai Sir Ddinbych i ddarparu'r prosiect, gyda chefnogaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor. Bydd y prosiect peilot 18 mis hwn yn rhedeg yn Y Rhyl, Prestatyn, Llangollen a Chorwen.